

COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwyniad

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system y bydd awdurdodau lleol yn ei defnyddio i gyfarwyddo a rheoli eu swyddogaethau ac i greu perthynas â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar rai egwyddorion sylfaenol, sef didwylledd a chynwysoldeb, hygrededd ac atebolrwydd ynghyd â'r cysyniad cyffredinol o arweinyddiaeth. Mae'n system ryngberthynol sy'n dwyn y set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli ynghyd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod angen sefydlu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a, dros y blynyddoedd, mae'r Aelodau a'r uwch Swyddogion wedi datblygu polisiau, systemau a gweithdrefnau at y diben hwn ac i reoli'r adnoddau sydd ganddynt. Drwy fabwysiadu'r Cod, mae'r Cyngor wedi dwyn ynghyd yr holl elfennau llywodraethu corfforaethol a oedd eisoes ar waith.

Mae'r cod hwn yn cydnabod y pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar lywodraethu corfforaethol ac mae hefyd yn ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol a'r dogfennau canllaw a ganlyn:-

- *Delivering Good Governance in Local Government: Framework and Addendum* – Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)
- *Delivering Good Governance in Local Government* – Nodiadau canllaw i Awdurdodau Cymru
- *The Annual Governance Statement – A Rough Guide for Practitioners* a gyhoddwyd gan Rwydwaith Cynghori ar Gyllid CIPFA
- *International Framework: Good Governance in the Public Sector* – Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr / CIPFA

Caiff trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor eu hadolygu bob blwyddyn ar ffurf hunanasesiad. Cynhelir yr hunanasesiad gan uwch swyddogion y Cyngor ac fe'i defnyddir i baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynir bob blwyddyn i'r Cyngor a'i Bwyllgor Archwilio.

Mae'r Cod yn rhan o'r Cyfansoddiad ac mae'n gymwys i bob agwedd ar fusnes y Cyngor. Wrth ymgymryd â busnes y Cyngor, rhaid i Aelodau a staff y Cyngor ymddwyn yn unol â'r safonau uchel a ddisgwyllir gan ddinasyddion Sir y Fflint ac yn unol â'r dyheadau a restrir isod.

Mae'r Cod yn adlewyrchu ac yn seiliedig ar ofynion amrywiol sy'n sylfaen i'r chwe egwyddor graidd a geir yn y ddogfen "*Delivering Good Governance in Local Government: Framework*". Dyma'r chwe egwyddor graidd:-

- Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.
- Sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn cydweithio at ddibenion cyffredin yn unol â swyddogaethau a rolau sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod ac amlygu gwerthoedd llywodraethu da drwy sicrhau ymddygiad o safon uchel.
- Gwneud penderfyniadau deallus a thryloyw a sicrhau bod prosesau ar waith i graffu'n effeithiol arnynt ac i reoli risg.
- Datblygu cymhwyster a gallu Aelodau a Swyddogion i weithredu'n effeithiol.
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

Mae nifer o'r gofynion sy'n sylfaen i'r chwe egwyddor graidd yn rhyngberthynol ac mae angen darllen adrannau amrywiol o'r Cod gyda'i gilydd i gael dealltwriaeth lawn o'r trefniadau sydd ar waith. Mae'r Cod yn nodi'n benodol y camau gweithredu y dylid eu cymryd ar gyfer pob un o'r chwe egwyddor graidd cydgysylltiedig sy'n llywodraethu ein busnes.

Y Cabinet, ar y cyd â Phwyllgor y Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Cod hwn a'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn gyfredol drwy gynnal adolygiad blynyddol, a hynny ym mis Hydref bob blwyddyn.

1. Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol.

1.1 Drwy gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a'i allu i ddylanwadu'n ehangach, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i:-

- Weithio dros ei gymunedau a chydâ'i gymunedau.
- Arfer arweinyddiaeth yn ei gymunedau, lle bo hynny'n briodol.
- Ymgymryd â rôl "genhadol" i hyrwyddo lles Sir y Fflint lle bo hynny'n briodol.
- Ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac awdurdodau eraill er lles ei gymunedau.

1.2 Mae'r Cyngor wedi datblygu ac mae'n ceisio sefydlu dulliau gwahanol o ddefnyddio asedau'r Cyngor ac o ddarparu gwasanaethau. Diben hyn, mewn hinsawdd ariannol anodd, yw cynnal gwasanaethau a swyddi a allai fod dan fygythiad fel arall. Bydd y dulliau gwahanol o ddarparu

gwasanaethau'n cynnwys modelau cymunedol, masnachol, a chydweithredol neu gymdeithasol. Ym mhob achos, dyma fydd y gofynion allweddol:

- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol wedi'u sefydlu ac yn cael eu cynnal
- Sicrhau bod cynlluniau busnes yn cael eu datblygu a'u cyflawni
- Sicrhau bod gwasanaethau penodol y Cyngor yn cyrraedd safonau uchel
- Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg
- Sicrhau bod gwasanaethau'n sicrhau budd cymunedol

1.3 Bydd y Cyngor yn cynnal trefniadau effeithiol er mwyn:

- Sicrhau atebolrwydd clir i randdeiliaid dros berfformiad yr Awdurdod a'i effeithiolrwydd yn y modd y mae'n darparu gwasanaethau a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy.
- Dangos hygredded a didwylledd yn y modd y mae'r Awdurdod yn ymwneud â phartneriaethau a sefydlwyd ag asiantaethau cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat/gwirfoddol.
- Dangos cynwysoldeb drwy gyfathrebu ac ymgysylltu â phob rhan o'r gymuned i annog cyfranogiad brwd.
- Sicrhau bod effeithiau gweledigaeth y sir, fel y'i pennwyd gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (y Bwrdd), yn cael eu monitro a'u hadolygu gan y Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol y Cyngor wrth i bob corff sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor gynnwys y weledigaeth yn eu trefniadau gweithio a llywodraethu.
- Sicrhau bod y trefniadau i weithio mewn partneriaeth o dan y Cynllun Integredig Sengl yn cael eu seilio ar weledigaeth gyffredin.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith wrth ddatblygu dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau.

1.4 Bob blwyddyn, cyhoeddir Datganiad o Gyfrifon, a gaiff ei archwilio a'i lofnodi, sy'n rhoi barn gywir a theg am sefyllfa ariannol yr Awdurdod, yn ôl archwiliwr allanol y Cyngor (Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd). Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys datganiad o gyfrifoldebau, i sicrhau bod yr Awdurdod:

- yn cydymffurfio ag arferion priodol fel y'u nodir gan CIPFA/LASAAC yn y ddogfen *Code of Practice on Local Authority Accounting in Great Britain*.
- yn rheoli ei fusnes i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau a'i asedau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol
- yn dethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson.
- yn cyflwyno barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus.

- yn cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonderau eraill
 - yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol; a bod
 - Cadeirydd a Phrif Swyddog Cyllid y Cyngor yn llofnodi'r Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod dros y Datganiad o Gyfrifon.
- 1.5 Cyflwynir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor bob mis Medi. Ar ôl cael ei gymeradwyo, caiff y Datganiad ei lofnodi gan Arweinydd y Cyngor, a'r Prif Weithredwr. Mae'r Datganiad yn esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ac wedi bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2014.
- 1.6 Mae Fframwaith Cynllunio'r Cyngor wedi'i ddatblygu er mwyn ymgorffori ein trefniadau atebolrwydd drwy i) adrodd ar berfformiad a risgiau a heriau mewn perthynas â'n blaenoriaethau ym maes gweinyddu a gwella a hynny bob blwyddyn ac yn gyfnodol, ii) cyflwyno cynlluniau 3 blynedd ar gyfer effeithlonrwydd busnes, iii) trefniadau strwythurol mewnol i hybu gwelliant a newidiadau drwy gyfrwng strategaethau a chynlluniau: y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Asedau a Chyfalaf, y Strategaeth Pobl, y Strategaeth TGCh, y Strategaeth Caffael a'r Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- 1.7 Mae'r cynlluniau effeithlonrwydd busnes yn un o'r tair elfen yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (Medi 2015) sy'n cyfrannu at leihau'r blwch ariannu hyd at 2017/18.
- 1.8 Mae'r ddwy elfen hon yn Fframwaith Cynllunio'r Cyngor yn cael eu crynhoi yn y cynlluniau a'n strategaethau perthnasol. Caiff adroddiadau eu cyflwyno'n rheolaidd am hynt y cynlluniau hyn a'r broses o fonitro'r Cynllun Gwella. Mae'r Cabinet wedi cytuno ar gynnwys Fframwaith (Llywodraethu) Cynllun y Cyngor.
- 1.9 Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhan hanfodol o Fframwaith Llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Mae iddi bwrpas deublyg, sef rhagweld yr adnoddau ariannol a fydd ar gael i'r Cyngor dros gyfnod penodol, a chyflwyno cynlluniau'n dangos y ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau hynny i roi ei flaenoriaethau, ei ddyletswyddau a'i ymrwymadau ar waith.

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig mewn dwy ran – Rhan 1 : Rhagweld yr Her a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin a Rhan 2: Wynebu'r Her a gymeradwywyd ym mis Medi. Mae'r strategaeth yn ymdrin â chyfnod o dair blynedd rhwng 2015/16 a 2017/18 tan ddiwedd blwyddyn gyntaf y Cyngor newydd, a

chaiff ei hadolygu a'i hailgyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Yn gyntaf, ym mis Ionawr/Chwefror fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac yna ym mis Medi/Hydref wrth osod cyd-destun blwyddyn y gyllideb ddilynol.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys rhagolwg, sy'n newid yn barhaus, o sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor a chaiff ei hadolygu'n barhaus.

1.10 Mae prosesau adrodd ariannol a gweithredol y Cyngor Sir yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan:

- Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyflwyno llythyr archwilio blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a chaiff y dystysgrif archwilio'n cael ei chynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon blynyddol.
- Adran Archwilio Mewnol annibynnol y Cyngor sy'n rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio gan gynnwys adroddiad blynyddol.
- Asiantaethau adolygu allanol eraill megis ESTYN a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

1.11 Mae Pwyllgorau Arolygu a Chraffu'r Cyngor yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o adolygu a datblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau. Mae'r rôl hon yn cynnwys archwilio canlyniadau perfformiad a monitro cyllidebau sy'n helpu i asesu llwyddiant a methiant. Dyma rai o'r trefniadau i roi rhwystrau a gwrthbwyysau ar waith. Mae rheoliadau allanol yn ychwanegu at y broses drwy gyhoeddi adroddiadau ar wasanaeth a pherfformiad.

1.12 Dyma'r ffyrdd eraill y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i fesur a monitro ansawdd ei wasanaethau:-

- Defnyddio modelau sicrwydd ansawdd.
- Archwiliadau mewnol ac allanol
- Arolygon boddhad cwsmeriaid.
- Clybiau Meincnodi.
- Cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu a'r Cabinet am berfformiad a risgiau a chyflawni Amcanion Gwella (blaenoriaethau).

1.13 Mae'r Cyngor yn ymdrechu i wella'n barhaus wrth ddarparu ei wasanaethau drwy fesur a rheoli perfformiad, sefydlu safonau ansawdd gwasanaeth, creu llinellau atebolrwydd clir a monitro safonau a pherfformiad. Mae gan y Cyngor weithdrefn i ymdrin â Chanmoliaethau, Sylwadau a Chwynion sy'n golygu bod modd cofnodi cwynion ar gronfa ddata ganolog a'u monitro ar lefel gorfforaethol a fesul portffolio.

- 1.14 Mae cofrestr ganolog o gontractau a rhestrau o ragosodiadau'n cael eu datblygu i helpu i fonitro ac adolygu contractau. Mewn rhai ardaloedd, mae gan y Cyngor drefniadau wrth gefn i sicrhau y gellir ymateb yn briodol os bydd gwasanaethau neu'r farchnad yn methu.
- 1.15 Defnyddir nifer o ddulliau i ddangos gwerth am arian:
- Mae'r Cynllun Gwella blynyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynlluniau'r Cyngor a'r effeithiau y mae'n dymuno eu gweld. Mae'r Adroddiad Perfformiad blynyddol yn rhoi darlun o berfformiad a chynnydd cyffredinol y Cyngor yn y modd y mae'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau'n unol â'i Gynllun Gwella.
 - Mae proses ar waith i bennu'r gyllideb flynyddol ac mae pob portffolio'n cyfarfod bob mis i adolygu eu cyllidebau.
 - Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Arolygu a Chraffu'r Cyngor yn eu galluogi i adolygu, craffu, cwestiynu a gwneud argymhellion mewn perthynas â'u meysydd gweithgarwch gan gynnwys polisi, cyllid, perfformiad, risg a llywodraethu.
 - Caiff y cynlluniau busnes eu hadolygu drwy gyfrwng strwythurau llywodraethu cyffredin Byrddau Rhaglenni ac mae swyddogion ac Aelodau'n cyfrannu at y gwaith, sy'n cynnwys dulliau o olrhain effeithlonrwydd a system logio risgiau.
- 1.16 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu perfformiad y Cyngor a'i drefniadau gwerth am arian drwy eu gwaith Asesu Gwelliant ac maent yn adrodd am eu canfyddiadau mewn amryw o lythyrau a'u Hadroddiad Gwella Blynyddol. Cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol manwl o'r Cyngor yn ddiweddar. Cynhelir asesiadau corfforaethol bob rhyw bedair blynedd. Disgwylir adborth ffurfiol.
- 1.17 Nodir effaith polisiau, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor ar gydraddoldeb, cyllid, personél, yr amgylchedd a thlodi ym mhob adroddiad pwyllgor, ac maent i'w gweld yn yr adrannau a ganlyn:
- Adran 1 – Esbonio'r XXX (testun yr adroddiad)
Adran 2 – Y goblygiadau o ran adnoddau
Adran 3 – Ymgynghoriadau i'w cynnal/wedi'u cynnal
Adran 4 – Rheoli risg
- Yn ogystal â hyn, cynhelir Asesiadau o Effaith ar gydraddoldeb a chânt eu cyhoeddi mewn perthynas â phenderfyniadau polisi a busnes ac wrth bennu'r gyllideb.
- 1.18 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd Safonau newydd y Gymraeg yn gymwys o fis Ebrill 2016 ymlaen, ac maent yn dangos sut y bydd y Cyngor yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a, phan fo'n briodol, wrth gynnal ei fusnes mewnol hefyd. Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad ar ei berfformiad ddwywaith y flwyddyn i'r Cabinet a bob blwyddyn i Gomisiynydd y

Gymraeg.

2. Sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn cydweithio at ddibenion cyffredin yn unol â swyddogaethau a rolau diffiniedig clir

- 2.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen strwythurau a phrosesau gwleidyddol a rheolaethol effeithiol er mwyn llywodraethu penderfyniadau ac arfer awdurdod yn y sefydliad. Gan hynny, mae wedi sefydlu nifer o drefniadau at y diben hwn.
- 2.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys enwau a disgrifiad o bortffolios yr Arweinydd ac Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol. Cytunwyd ar eu rolau priodol ac fe'u cofnodwyd. Cytunwyd ar ddisgrifiadau o rolau holl gadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu, pwyllgorau rheoleiddio ac Aelodau'r Pwyllgorau hefyd, ac fe'u cofnodwyd yn yr un modd.
- 2.3 Datblygwyd disgrifiadau swydd ar gyfer pob un o Uwch Swyddogion y Cyngor ac mae'r strwythur uwch reoli'n cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas.
- 2.4 Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n nodi'r penderfyniadau hynny a neilltuir i'r Cyngor Sir, sef y materion hynny'n ymwneud â dewis lleol y bydd naill ai'r Cyngor Sir neu'r Pwyllgor Gweithredol yn penderfynu arnynt, yn ôl disgrisiwn y Cyngor. Caiff materion yn ymwneud â dewis lleol eu hadolygu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor. Mae'r Cynllun Dirprwyo'n nodi'r pwerau dirprwyedig cyffredinol a phenodol hynny a roddir i Brif Swyddogion ac Uwch Swyddogion ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- 2.5 Mae'r Cyngor wedi penodi Prif Weithredwr fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar reolaeth weithredol. Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi ynghylch bob mater ariannol, am gadw cofnodion ariannol a chyfrifon priodol, ac am gynnal a chadw system rheolaeth ariannol fewnol i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'i ofynion o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi'i ddynodi'n Swyddog Monitro statudol ac mae'n gyfrifol am ofynion statudol y rôl honno o dan Adran 5 a 5(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'r tri Swyddog Statudol yn ymgynghori â'i gilydd yn ôl gofynion eu rolau statudol ac yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried gwaith y Pwyllgor Gweithredol.
- 2.6 Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau ar waith lle i sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn cyfathrebu'n effeithiol yn eu rolau priodol. Mae

Protocol ar y Berthynas rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion yn ganllaw iddynt, ac yn sôn am y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin sy'n tueddu i godi. Mae'r Protocol yn awgrymu y dylid creu cysylltiadau gwaith cadarn ac effeithiol er mwyn ennyn parch at ei gilydd ac i sicrhau ymddygiad o'r safon uchaf a chwarteisi tuag at ei gilydd. Mae'n rhoi cyngor i Swyddogion ynghylch y wybodaeth y mae gan Aelodau hawl i'w disgwyl er mwyn ymgymryd â'u rolau amrywiol. Mae'n cynnwys adran ar gyfathrebu ac mae'n pwysleisio'r angen i gadw cyfrinachedd pan fydd hynny'n ddisgwyliedig. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i Aelodau gael gwybod am faterion lleol a all effeithio ar eu wardiau gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ac ymarferion ymgynghori.

- 2.7 Rhoddir sesiynau briffio i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau cyn cyfarfodydd y pwyllgorau a threfnir cyfarfodydd briffio ehangach o dro i dro gydag Arweinwyr y Grwpiau, aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol ac Aelodau'r Wardiau ynglŷn â materion penodol.
- 2.8 Cynhelir adolygiad blynyddol o lwfansau Aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol ac adolygiadau pellach yn ystod y flwyddyn lle bo hynny'n briodol. Gosodir Cynllun Lwfans yr Aelodau yn y Cyfansoddiad.
- 2.9 Caiff amodau a thelerau taliadau Swyddogion eu cytuno'n genedlaethol. Cwblhawyd proses gwerthuso swyddi a oedd yn cynnwys gweithwyr â llaw, staff gweinyddol, proffesiynol a thechnegol a staff clericio ac mae cytundeb statws sengl yn awr ar waith. Roedd y prosiect hwn yn ganolog i ddatblygiad strwythur taliadau sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb.
- 2.10 Y Prif Weithredwr sy'n arwain y gwaith o reoli'r Cyngor drwy gyfrwng ei dîm o Brif Swyddogion sy'n gyfrifol am hysbysu'r gymuned a phartneriaid y Cyngor o'i werthoedd cyffredin drwy adolygu Cynllun Gwella'r Cyngor a chynlluniau a strategaethau ategol. Mae'n gwneud hynny drwy:-
 - Weithio mewn partneriaeth
 - Cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor a'i bwyllgorau a'r Pwyllgor Gweithredol
 - Yr e-gylchgrawn 'Eich Cyngor'.
 - Cyfarfodydd â Chyngor Cyd-undeb Llafur Sir y Fflint
 - Cyfarfod â'r Cydbwyllgorau Ymgynghorol
 - *Change Exchange* a briffio'r timau
 - Proses arfarnu staff
 - Uwch Dîm Rheoli a chyfarfodydd tîm eraill
 - Bwletinau gwybodaeth i'r gweithlu
 - Y cyfryngau cymdeithasol ee Twitter
- 2.11 Yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, enwebwyd Aelodau o bob plaid wleidyddol i ymgymryd â rolau mewn amryw o gyrff allanol. Darparwyd

canllawiau i gynorthwyo'r Aelodau i ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn a chanllawiau ar wahân i'r rheiny a enwebwyd fel cyfarwyddwyr cwmnïau. Pan fydd partneriaeth newydd yn cael ei chreu, gofelir bod ei statws cyfreithiol yn glir, bod ganddi gylch gorchwyl priodol a bod y cynrychiolwyr yn gwybod i ba raddau y gallant rwympo'r Cyngor. Mae'r Cabinet wedi gosod a chytuno ar brotocol ar gyfer llywodraethu trefniadau gweithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys cyfraniad llawn y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu priodol a'r Pwyllgor Archwilio.

3. Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal ymddygiad o safon uchel

3.1 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod mai didwylledd, hygrededd ac atebolrwydd unigolion mewn awdurdod lleol yw conglfaen trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol. Hefyd, mae enw da'r Cyngor yn dibynnu ar safonau ymddygiad pawb ynddo, p'un a ydynt yn Aelodau, yn weithwyr neu'n asiantau dan gontract.

3.2 Disgwylir i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion felly fabwysiadu gwerthoedd cyffredin a dangos arweinyddiaeth sy'n batrwm ymddwyn yn y Cyngor Sir. O ganlyniad:-

- Mae gan y Cyngor God Ymddygiad sy'n llywodraethu ymddygiad pob un o Aelodau ac Aelodau cyfetholedig y Cyngor Sir. Mae'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod ddatgan buddion personol (neu niweidiol os yw hynny'n briodol) mewn unrhyw fater y byddant yn ei ystyried. Os gallai'r buddion fod yn niweidiol, rhaid i'r Aelodau adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth oni bai eu bod wedi cael caniatâd i aros gan y Pwyllgor Safonau. Rhaid datgan budd ym mhob cyfarfod gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol â Swyddogion ac mewn gohebiaeth.
- Mae Gweithdrefn Leol wedi'i mabwysiadu i ddatrys cwynion mewnol llai difrifol yn ymwneud ag Aelodau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod.
- Mae'r Cod yn gymwys i Aelodau pan fyddant yn ymwneud â sefydliadau eraill y maent wedi'u henwebu ar eu cyfer, oni bai fod gan y sefydliad hwnnw ei god ei hun. Os felly, y cod hwnnw fydd yn gymwys.
- Mae cod atodol wedi'i fabwysiadu i ymdrin yn benodol â materion cynllunio.
- Mae mwyafrif yr aelodau ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn aelodau cyfetholedig annibynnol, ac mae un ohonynt yn Gadeirydd y Pwyllgor ac yn gyfrifol am fonitro'r modd y caiff Cod yn Aelodau ei

weithredu. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Aelodau yn cael hyfforddiant a chanllawiau yn y cyswllt hwn.

- Mae gan Swyddogion God Ymddygiad sy'n cynnwys amrywiaeth eang o safonau ymddygiad gofynnol. Mae'r safonau hyn yn cynnwys gofynion i gyflawni'u dyletswyddau'n ddiwyd, parchu urddas a hawliau'r cyhoedd, cwsmeriaid a gweithwyr eraill bob amser; a gwasanaethu'r cyhoedd yn gwrtais, yn effeithlon ac yn ddiduedd. Mae gofynion eraill yn ymwneud â defnyddio adnoddau, rhoddion a lletygarwch y Cyngor, ymrwymadau allanol, gwrthdaro buddiannau, cyfrinachedd, niwtraliaeth gwleidyddol, cysylltiadau ag Aelodau ac ymddygiad cyffredinol. Caiff y Cod ei gyflwyno i bob aelod newydd o staff fel rhan o'u rhaglen gynefino. Gofynnwyd i'r holl staff gadarnhau eu bod wedi darllen y Cod.

3.3 Mae'r Cyngor Sir yn trefnu rhestr o gyfarfodydd i geisio sicrhau bod modd cyflawni'r rolau a ddisgrifir uchod yn effeithiol. Trefnir bod y Cyngor Sir llawn yn cyfarfod bob 10 wythnos a chaiff cyfarfodydd arbennig eu cynnal yn ôl yr angen hefyd. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod bob pedair wythnos ac mae pob un o'r saith Pwyllgor Arolygu a Chraffu'n cyfarfod yn rheolaidd sawl gwaith y flwyddyn. Ceir manylion y gwaith Arolygu a Chraffu mewn adroddiad blynyddol a roddir i'r Cyngor bob blwyddyn ac mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

3.4 Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Strategaeth Atal Twyll a Llygredd, Cynllun Ymateb i Dwyll a Pholisi Chwythu'r Chwiban a gaiff eu hadolygu a'u diweddarau bob hyn a hyn. Dyma'u prif elfennau:-

- Hyrwyddo gonestrwydd a brwydro yn erbyn twyll a llygredd yn y Cyngor.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i atal twyll a llygredd yn y Cyngor, gan gynnwys dulliau rheoli mewnol a gweithdrefnau recriwtio effeithiol.
- Sefydlu egwyddorion sylfaenol ar gyfer achosion o ddarganfod twyll, gan gynnwys cysylltu â'r Heddlu a chymryd camau disgyblu.
- Atgoffa staff i fod yn ymwybodol o unrhyw achos posibl o dwyll a llygredd.
- Rhoi trefniadau ar waith i alluogi staff i leisio pryderon wrth uwch swyddogion yn gyfrinachol.
- Annog staff, contractwyr, cyflenwyr a phartnerwyr i deimlo'n hyderus y gallant leisio pryderon difrifol ac i gwestiynu a chymryd camau i ymdrin â'r pryderon hynny.

- Sicrhau bod pobl yn cael ymateb i'r pryderon a'u bod yn gwybod sut i fwrw ymlaen â'r mater os nad ydynt yn fodlon ar yr ymateb.
- Sicrhau'r rhai sy'n lleisio pryderon y cânt eu diogelu rhag unrhyw gamau i ddial arnynt neu i'w herlid os yw'n rhesymol iddynt gredu eu bod wedi lleisio pryder yn ddiffuant.

3.5 Mae prosesau ar waith hefyd i sicrhau bod trefniadau'n dal i gael eu gweithredu i sicrhau nad yw Aelodau a gweithwyr yn cael eu dylanwadu gan ragfarn a gwrthdaro buddiannau. Yn benodol:-

- Mae Aelodau'n cael cyngor yn rheolaidd gan y Pwyllgor Safonau ynghylch defnyddio'r Cod Ymddygiad i Aelodau.
- Mabwysiadwyd Cod Ymarfer Cynllunio.
- Cytunwyd a chyhoeddwyd protocol sy'n rhoi canllaw i Aelodau ynghylch ymdrin â datblygwyr a chontractwyr.
- Cedwir Cofrestr o Fuddiannau Aelodau.
- Mae cyfle ffurfiol i Aelodau ddatgan buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod.
- Gofynnir i swyddogion gofnodi unrhyw fuddiannau, rhoddion a lletygarwch ar gofrestrau a gedwir gan eu Prif Swyddogion. Dylai Aelodau o'r Tîm Prif Swyddogion hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw fuddiannau, rhoddion a lletygarwch a dderbyniant. Bydd y rhain yn cael eu cadw ar gofrestr ganolog.

3.6 Caiff gofynion a thelerau'r codau a'r polisiâu amrywiol eu dwyn i sylw'r rhai y mae angen iddynt wybod amdanynt, a hynny mewn gwahanol ffyrdd:-

- Hyfforddiant ffurfiol i Aelodau, yn achos y Cod Ymarfer i Aelodau.
- Gweithdai anffurfiol i'r Aelodau i godi ymwybyddiaeth
- Hyrwyddo'r Cod Ymddygiad Swyddogion, Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Polisi Atal Twyll a Llygredd ar fewnwyd y Cyngor Sir.
- Rhaglen gynefino staff y Cyngor Sir.

3.7 Yn ogystal â'r codau ymddygiad a'r protocolau uchod, mae'r Cyngor yn ceisio cynnal safonau uchel wrth gynnal ei fusnes ac osgoi rhagfarn a gwrthdaro buddiannau drwy:-

- Fabwysiadu a chyhoeddi Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a thrwy ddarparu hyfforddiant.
- Mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol drwy'r codau ymddygiad a'r protocolau y cyfeiriwyd atynt eisoes.

- Mabwysiadu a monitro Strategaeth a Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.

3.8 Hefyd, mae Mewnwyd y Cyngor yn cynnwys canllawiau ar:-

- Amrywiaeth a chydarddoldeb
- Urddas yn y gwaith
- Iechyd a diogelwch yn y gwaith
- Diogelu data

3.9 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi datblygu Fframwaith Llywodraethu Strategol sy'n ystyried:

- Gweithdrefnau ar gyfer ffurfio ac ymuno ag unrhyw Bartneriaeth Strategol
- Cytundebau Partneriaethau Strategol
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Risg
- Rheoli Adnoddau
- Rhannu Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Adolygu Partneriaethau / Hunanasesiad Blynyddol

Pwrpas hyn yw sicrhau cysondeb yn y modd y caiff Partneriaethau Strategol eu llywodraethu.

Defnyddir y Fframwaith hwn gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau cysylltiedig gan gynnwys:

- Bwrdd Prosiect Cyflogaeth, Sgiliau a Swyddi
- Bwrdd Iechyd, Lles ac Annibyniaeth
- Bwrdd Pobl yn Ddiogel
- Bwrdd Rheoli Gweithredol Cyfiawnder Ieuenctid

4. Gwneud penderfyniadau deallus a thryloyw a sicrhau bod prosesau ar waith i graffu'n effeithiol arnynt ac i reoli risg.

4.1 Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu Cyfansoddiad sydd:

- Yn diffinio'n glir y swyddogaethau hynny a neilltuir i'r Cyngor llawn benderfynu arnynt, y penderfyniadau hynny a wneir gan y Pwyllgor Gweithredol neu ei aelodau unigol, a'r rhai a ddirprwyir i Uwch Swyddogion. Yn y cyswllt hwn, yr egwyddor sylfaenol a ddefnyddir i sefydlu'r rheolau hyn yw mai'r Cyngor llawn sy'n pennu'r cyfeiriad strategol drwy fabwysiadu polisïau a chyllideb, y Pwyllgor Gweithredol sy'n gwneud y prif benderfyniadau o fewn y fframwaith polisi a chyllideb cyffredinol ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau newydd a'r Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o fewn y fframwaith polisi a chyllideb.

- Yn sefydlu rôl arolygu a chraffu cadarn drwy'r chwe Phwyllgor Arolygu a Chraffu a'r Pwyllgor Cydgysylltu. Rhyngddynt, mae gan y cyrff hyn bwerau i adolygu a chraffu ar benderfyniadau'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar waith y Cyngor, gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud â pholisïau a gyfeirir atynt gan y Cyngor neu'r Pwyllgor Gweithredol.
- Yn nodi rôl yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gweithredol yn glir ac, yn benodol, yn ei gwneud yn glir eu bod yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth strategol effeithiol i'r Cyngor a sicrhau bod y Cyngor yn ymgymryd yn llwyddiannus â'i gyfrifoldebau cyffredinol dros waith y sefydliad cyfan.
- Yn sicrhau, drwy Reolau Gweithdrefnau Ariannol a'r Cynllun Pwerau Dirprwyedig, fod y modd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes o ddydd i ddydd yn cael ei reoli'n effeithiol drwy sicrhau cymeradwyaeth yr Aelodau i benderfyniadau sy'n wahanol i'r arfer neu benderfyniadau y tu allan i ffiniau diffiniedig.
- Yn nodi rôl pob Cynghorydd yn glir, o ran y modd y maent yn gwneud penderfyniadau ffurfiol/datblygu polisïau ac fel aelodau lleol ac yn sicrhau eu bod yn cael tâl priodol am y gwaith hwn drwy'r Cynllun Lwfansau Aelodau.

4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r gweithdrefnau a gaiff eu dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Rhennir y Cyfansoddiad yn 30 adran sy'n esbonio sut y mae pob rhan o'r Cyngor yn gweithio.

4.3 Mae'r Cyfansoddiad yn esbonio'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae pob adran yn y cyfansoddiad yn disgrifio'r pwerau dirprwyedig perthnasol ar gyfer y rhan honno o'r Cyngor. Dyma'r prif egwyddorion a gaiff eu cymhwyso wrth wneud unrhyw benderfyniad:

- Cymesuredd (h.y. rhaid i'r camau a gymerir fod yn gymesur â'r canlyniadau arfaethedig).
- Ymgynghori'n briodol a chael cyngor proffesiynol gan Swyddogion.
- Parchu hawliau dynol.
- Rhagdybio o blaid didwylledd.
- Nodau a chanlyniadau arfaethedig.
- Ystyried opsiynau gwahanol.

- Cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad, gan gynnwys manylion unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd ac a wrthodwyd.
 - Yn ogystal â pholisïau a phrotocolau'r Cyngor, egluro'r prosesau y dylid eu dilyn wrth wneud penderfyniadau e.e. mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, rhoddir manylion y prosesau yng Nghod Arfer Gorau Cynllunio Sir y Fflint.
- 4.4 Caiff y broses o wneud penderfyniadau ei hesbonio'n glir ar wefan y Cyngor.
- 4.5 Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Contractau a Gweithdrefnau Ariannol cynhwysfawr sy'n llywodraethu'r broses a ddilyniwr wrth gynnal busnes y Cyngor; ategir y rhain ymhellach gan godau lleol, protocolau a nodiadau cyfarwyddyd manylach.
- 4.6 Mae'r Cyfansoddiad yn nodi protocolau a chodau ymddygiad clir i sicrhau bod y goblygiadau sydd ynghlwm wrth gefnogi arweinyddiaeth wleidyddol gymunedol i'r Cyngor cyfan yn cael eu cydnabod a'u hystyried, gan gynnwys:
- Cod Ymddygiad yr Aelodau
 - Cod Ymddygiad ar Faterion Cynllunio Sir y Fflint
 - Protocolau ar gyfer rhoi eitemau ar agenda cyfarfodydd Pwyllgor Arolygu a Chraffu
 - Protocol ar y berthynas rhwng yr Aelodau a swyddogion
 - Protocol i'r Aelodau ar y modd y dylent ymdrin â chontractwyr / datblygwyr a thrydydd partïon eraill
- 4.7 Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio sy'n cynnwys 7 Aelod ac sydd â chydbwysedd gwleidyddol. Daw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o'r brif wrthblaid. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cael cyngor gan Reolwr Archwilio Mewnol y Cyngor. Fel arfer bydd cynrychiolwyr archwilwyr allanol y Cyngor yn bresennol hefyd. Mae pob Aelod yn cael hyfforddiant a dim ond dirprwyon hyfforddedig a ganiateir.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys yr hyn a ragnodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac fe'u cytunwyd gan y Cyngor. Maent yn rhoi'r swyddogaethau a ganlyn i'r Pwyllgor:-

- Adolygu effeithiolrwydd systemau llywodraethu corfforaethol, rheoli mewnol a rheoli risg yr Awdurdod, a llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor Sir ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
- Goruchwyllo'r broses adroddiadau ariannol statudol i fantoli a sicrhau tryloywder a hygredded gwybodaeth ariannol a gyhoeddir, ac i adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod a'u cymeradwyo i'r Cyngor Sir;

- Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol yn y cyd-destun rheoleiddiol ehangach.
- Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor Sir, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion arnynt. Rôl y pwyllgor yw sicrhau systemau rheoli cyllidebol y Cyngor yn hytrach na chraffu ar y defnydd a'r gwerth am arian o wariant, sef rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol.

4.8 Cefnogir y Pwyllgor Archwilio ymhellach i gyflawni ei swyddogaethau drwy:-

- Wneud trefniadau priodol i ddarparu swyddogaeth Archwilio Mewnol digonol ac effeithiol a sicrhau trefniadau adrodd digonol i ddiogelu ei annibyniaeth.
- Cynllun Archwilio Mewnol cyfredol sy'n seiliedig ar risg.
- Aseidiadau Risg systematig ym mhob agwedd ar waith y Cyngor; ar lefel strategol sy'n hybu blaenoriaethau gwella'r Cyngor ac ar lefel weithredol y Prif Swyddogion
- Cylch gorchwyl clir.
- Archwilwyr Allanol sy'n cynnal archwiliad blynyddol o ddull y Cyngor o ymdrin â chyfreithlondeb, ei ymateb i ddeddfwriaethau pwysig ac unrhyw fater yn ymwneud â chyfreithlondeb sy'n berthnasol i'r broses o archwilio trafodion ariannol, ac mae'r canlyniad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio.
- Hyfforddiant priodol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

4.9 Ym mis Mehefin 2015, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio ddull diwygiedig o ymdrin â rheoli risg. Mae'n cynnwys:

- Disgrifiadau manylach o risg gan gynnwys esboniad o effaith y 'risg' os caiff ei wireddu a datblygu'n 'broblem' y mae angen ei datrys.
- Matrics risg mwy soffistigedig, gan gyflwyno matrics 6 x 4 yn lle'r matrics 3 x 3 ar gyfer tebygolrwydd ac effaith; rhoi mwy o gyfle i ddangos sut y mae'r risg yn cynyddu neu'n lleihau gan ddibynnu ar lwyddiant unrhyw gamau lliniaru ac effaith amgylchiadau allanol.
- Canllawiau cliriach ar gyfer uwchgyfeirio'r risg a'i adolygu/cofnodi; mwya'n y byd yw'r risg, amla'n y byd y caiff ei adolygu.
- Fformat gwell ar gyfer nodi risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg a chaniatáu i'r risg gael ei 'dileu' ar ôl cymryd camau lliniarol neu ar ôl iddi gael ei gwireddu fel problem y mae angen ei datrys.
- Rhoi lle mwy blaenllaw i 'risgiau' yn adroddiadau'r Cyngor

4.10 Mae'r Cyngor wedi nodi a gwerthuso ei risgiau strategol mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Gwella. Y rhain yw

sylfaen cofrestr risg strategol y Cyngor. Cânt eu cynnwys yn Adroddiadau Monitro'r Cynllun Gwella a gyflwynir bob chwarter i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu perthnasol. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiad ddwywaith y flwyddyn sy'n cynnwys crynodeb/trosolwg o'r risgiau strategol.

4.11 Caiff risgiau gweithredol eu nodi a'u monitro drwy'r cynlluniau a'r strategaethau ategol o fewn eu meysydd gweithredola drwy'r byrddau prosiect/rhaglen, fel y bo'n briodol. Caiff y byrddau priodol wybod am risgiau partneriaeth a risgiau prosiect a nhw fydd yn eu nodi.

4.12 Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o ymdrin â materion Parhad Busnes, gan gynnwys:

- Datblygu Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol sy'n creu fframwaith cyffredinol ar gyfer yr holl Gynlluniau Parhad Busnes ac sy'n nodi'r camau i'w cymryd i gynorthwyo i adfer gwasanaethau ar ôl digwyddiad sy'n amharu'n sylweddol ar fusnes e.e. methu defnyddio TGCh neu adeiladau.
- Mae Cynlluniau Parhad Gwasanaethau yn cael eu diweddarau ar gyfer y gwasanaethau hynny y mae'n rhaid eu cynnal neu eu hadfer fel mater o flaenoriaeth os bydd amgylchiadau annisgwyl yn amharu ar fusnes e.e. tywydd garw.

Caiff yr uchod eu rhoi ar brawf o bryd i'w gilydd drwy hyfforddiant, drwy gyflwyno senarios penodol, a thrwy'r gwersi a ddysgir yn ystod y gweithgareddau hyn a phan fydd digwyddiadau'n codi yn ystod y flwyddyn.

4.13 Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfyngiadau a osodir arno drwy weithgarwch cyfreithiol ac ar yr un pryd yn ymdrechu i ddefnyddio'i bwerau er budd ei gymunedau drwy:-

- Gael cyngor cyfreithiol wrth baratoi adroddiadau'r Cyngor, Pwyllgorau a'r Pwyllgor Gweithredol.
- Sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael mewn cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gweithredol a Phwyllgorau Statudol.
- Gwaith rhagweithiol Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor a'i berthynas waith agos â rheolwyr y gwasanaeth.
- Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant yn benodol).
- Mae polisïau a phrotocolau'r Cyngor yn egluro'r prosesau.

4.14 Mae swyddogaeth Arolygu a Chraffu wedi datblygu i fod yn gyfaill beirniadol, gan gynnig her adeiladol er mwyn cyfrannu at wella gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnir y rôl hon drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Gweithredol a Phrif Swyddogion a hefyd drwy gael y 6

Phwyllgor Arolygu a Chraffu swyddogaethol i alw penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol i mewn. Mae pob un o'r Pwyllgorau hynny'n helpu i fonitro a rheoli perfformiad drwy ystyried eitemau priodol fel canlyniadau dangosyddion perfformiad, nodi risgiau a'u lliniaru. Caiff rhaglenni gwaith Arolygu a Chraffu eu diweddarau a'u cyhoeddi'n rheolaidd ac mae tîm penodol o Swyddogion ar gael i gefnogi'r swyddogaeth.

- 4.15 Bydd pwyllgorau eraill yn gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar adroddiadau manwl a nodir unrhyw wybodaeth hwyr yn y cofnodion. Wrth ymgymryd â gwaith ar gais y Cyngor neu'r Pwyllgor Gweithredol neu wrth ymgymryd â'u hymchwiliadau eu hunain, bydd Pwyllgorau Arolygu a Chraffu'n cytuno ar adroddiadau sy'n cynnwys y dystiolaeth a ystyriwyd yn berthnasol.
- 4.16 Mae adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor Sir yn cynnwys yr holl wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau. Caiff y penderfyniadau a wna Swyddogion o dan bwerau dirprwyedig eu cofnodi mewn ffeiliau neu, os ydynt yn benderfyniadau arwyddocaol, cânt eu hymgorffori mewn Ffurflenni Gweithredu Dirprwyedig a gyflwynir i'r Cabinet er gwybodaeth.
- 4.17 Mae'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro ar gael i roi cyngor i Aelodau a staff am wrthdaro buddiannau a allai godi o dro i dro. Mae canllawiau ar gael hefyd ar fewnwyd y Cyngor.
- 4.18 Mae cyfres o safonau gwasanaethau cwsmeriaid ar waith ynghyd â threfn gwyno a chronfa ddata ganolog. Y nod yw:-
- Ei gwneud yn haws i unrhyw un gyflwyno sylwadau, cwyn neu ganmoliaeth.
 - Datrys problemau cyn gynted ag y bo modd, a rhoi gwybod i'r bobl berthnasol am unrhyw sylwadau ffafriol.
 - Atal problemau rhag digwydd eto a hefyd annog arfer da.
- 4.19 Monitro i sicrhau bod y trefniadau uchod yn cael eu rhoi ar waith mewn gwahanol ffyrdd, yn arbennig:-
- Drwy'r Swyddog Cwynion Corfforaethol yn achos canmoliaeth, sylwadau a chwynion.
 - Drwy'r Pwyllgor Safonau, yn achos y Cod Ymddygiad i Aelodau.
 - Drwy'r Swyddog Monitro, o ran y Polisi Chwythu'r Chwiban.
 - Drwy Archwilio Mewnol, yn achos y Strategaeth Atal Twyll a Llygredd.
- 4.20 Mae'r Gwasanaethau Aelodau'n darparu gwasanaeth i Aelodau sy'n

chwilio am wybodaeth yn ymwneud â phroblemau mewn wardiau. Caiff aelodau'r Cabinet gymorth gan Swyddfa'r Prif Weithredwr.

- 4.21 Yn unol â'r canllawiau statudol, mae'r Cyngor wedi datblygu system ar wahân i ymdrin â chwynion ar gyfer materion yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae tair rhan i'r broses ragnodedig. Mae cam un yn darparu ar gyfer ystyried y mater a'i ddatrys yn lleol. Yng ngham dau, cynhelir ymchwiliad/adolygiad annibynnol mwy ffurfiol a cheir ymateb gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y trydydd cam, sef y cam olaf, cyflwynir apêl i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.
- 4.23 Gellir cyflwyno apêl gerbron Gweinidogion Cymru yn erbyn pob penderfyniad cynllunio.
- 4.24 Gellir gwneud cais i'r Cyngor adolygu rhai penderfyniadau tai penodol, gan gynnwys penderfyniadau'n ymwneud â cheisiadau digartrefedd a phenderfyniadau i ailfeddiannu eiddo gan denantiaid cychwynnol a thenantiaid isradd. Ni fydd y swyddogion a fydd yn cynnal yr adolygiadau hyn wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. Gellir cyflwyno apêl statudol yn y llys yn erbyn penderfyniadau digartrefedd os yw'r swyddog adolygu'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol.
- 4.25 Os nad oes hawl cynnal adolygiad neu apêl statudol o benderfyniad y Cyngor, gellir gofyn am Adolygiad Barnwrol neu gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

5. Datblygu cynhwysedd a gallu Aelodau a Swyddogion i weithredu'n effeithiol.

- 5.1 Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cymryd rhan mewn rhaglen gynefino. Mae rhestr wirio gyffredinol y mae angen ei chwblhau yn y cyswllt hwn ynghyd â sesiynau cynefino penodol ar gyfer gwasanaethau gwahanol. Cynhelir sesiwn gynefino gyffredinol hefyd i grwpiau o staff newydd. Diben y sesiwn hon yw ymdrin â modiwlau sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, gofal cwsmeriaid a llywodraethu.
- 5.2 Ar ôl etholiadau'r Cyngor Sir bob 4 blynedd, caiff rhaglen gynefino ei pharatoi a'i chyflwyno i'r Aelodau. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn cael y sgiliau gofynnol i ymgymryd â'u rolau a bod y sgiliau hynny'n cael eu datblygu'n rheolaidd i wella perfformiad drwy:-
- Gynnal sesiynau arfarnu staff fel rhan o system rheoli perfformiad sydd hefyd yn nodi anghenion hyfforddi a dulliau o'u diwallu
 - Hyfforddiant cynefino i swyddogion
 - Datblygu cymhwyseddau arweinyddiaeth a rheoli ymddygiad

- Rhaglenni datblygu a hyfforddi, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau proffesiynol i Aelodau a Swyddogion
- Hyfforddiant cynefino Aelodau
- System fentora i Aelodau
- Rhaglen flynyddol i ddatblygu Aelodau
- Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor
- Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau
- Hyfforddiant penodol i Aelodau ar gynllunio, trwyddedu, archwilio a rheoli risg.

5.3 Mae'r Cyngor yn elwa o fod yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n cynnig cefnogaeth a chymorth ar gyfer holl swyddogaethau'r Cyngor, trefniadau gweithio mewn partneriaeth, datblygu polisi a chysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae CIPFA/SOLACE, a sefydliadau proffesiynol eraill hefyd yn cynorthwyo a chefnogi swyddogion statudol a gwasanaethau eraill i ymgymryd â'u rolau.

5.4 Ddiwedd 2014, diweddarwyd y Strategaeth Pobl a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, sy'n ceisio sicrhau bod gweithwyr yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni gofynion y presennol a gofynion y dyfodol. Mae'r Partner Busnes AD, sy'n cydweithio â phob portffolio, yn gweithio mewn partneriaeth â Thimau Rheoli portffolios i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau o dan y Strategaeth Pobl ar lefel leol/gwasanaeth mewn perthynas â'r pedair thema, sef Arweinyddiaeth Effeithiol, Perfformiad o Safon Uchel, Gweithlu a Alluogwyd a Sgiliau ac Adnoddau Gwell.

5.6 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod strwythurau datblygu gyrfa ar waith i bob aelod o staff ac mae'n annog pawb i gymryd rhan drwy:-

- Ddatblygu fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol
- Datblygu Strategaeth Pobl
- Ad-drefnu uwch reolwyr y Cyngor
- Datblygiad proffesiynol parhaus

6. Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn

6.1 Mae'r Cyngor yn parhau i wella'i drefniadau i ddangos lefelau atebolrwydd wrth ddarparu ei wasanaethau drwy:-

- Y Cynllun Integredig Sengl (Cynllun Llesiant)
- Cynllun Gwella'r Cyngor
- Cynlluniau Busnes
- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Cynlluniau a Strategaethau Ategol

- Datganiadau clir o rolau ac atebolrwydd mewn swydd ddisgrifiadau staff
- Datganiadau clir o rolau Aelodau yn ei swyddfeydd amrywiol
- Darpariaethau diamwys mewn partneriaethau a chytundebau lefel gwasanaeth
- Cylchoedd gorchwyl pwyllgorau

6.2 Mae'r mwyafrif helaeth o adroddiadau'n cael eu hystyried yn gyhoeddus ac yn yr achosion prin pan nad yw hyn yn digwydd, bydd y Pwyllgor yn cytuno peidio â chynnwys y wasg a'r cyhoedd ar ôl i'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro benderfynu bod sail gyfreithiol briodol dros wneud hynny.

6.3 Mae Pwyllgorau Arolygu a Chraffu'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol am eu gwaith a chaiff hwn ei ystyried gan y Cyngor.

6.4 Mae'r Cyngor yn annog unigolion o bob rhan o'r gymuned i ymgysylltu â gwaith yr Awdurdod, i gyfrannu ato ac i gymryd rhan ynddo, ac mae'n ceisio cyflawni'r nod hwn drwy'r dulliau a ganlyn:-

- Y Cynllun Integredig Unigol a'r broses ymgynghori eang â phartneriaid.
- Y Cynllun Gwella a gynhyrchir bob blwyddyn ar ôl ymgynghori â'r Aelodau fel cynrychiolwyr pobl leol.
- Hybu rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf i alluogi pobl i gyfrannu'n effeithiol at eu cymunedau eu hunain.
- Datblygu a gweithredu fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a chanllawiau / dogfen bolisi.
- Mabwysiadu set o egwyddorion craidd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu'n seiliedig ar arfer gorau.

6.5 Mae'r Cyngor wedi sefydlu ffyrddau cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a rhanddeiliaid eraill ac maent wedi rhoi trefniadau monitro priodol ar waith i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.

- Mae gan y Cyngor nifer o ffyrdd o gyfathrebu â'i dinasyddion a'i rhanddeiliaid sy'n cynnwys:
 - Yr e-gylchgrawn 'Eich Cyngor Chi'
 - Y wefan
 - Y Cyfryngau Cymdeithasol
 - Cyhoeddiadau a thafenni
 - Digwyddiadau
 - Cysylltiadau sefydledig a chyfarfodydd rheolaidd â grwpiau/fforymau buddiannau lleol

- Gwahoddiad i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno materion y maent yn eu hystyried fel rhai y dylai'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu eu hystyried
 - Ymgynghori â rhanddeiliaid lleol (preswylwyr a busnesau) ynghylch proses y gyllideb i helpu i ddatblygu ei gynigion cyllideb ac i ennyn diddordeb y gymuned.
- Cydnabod gwerth y cyfryngau fel ffordd o drosglwyddo gwybodaeth i'r cyhoedd a defnyddio datganiadau i'r wasg, datganiadau a chyfarfodydd i friffio'r cyfryngau i wneud hyn.